**COFNODION DRAFFT**

Cofnodion Cyngor nos Iau Mehefin 8fed 2023 am 7pm

Presennol: E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones, M.L.Hughes, C.L.Price, Liz Roberts, M.Skerrett, I.W.Griffiths.

Datgan Diddordeb. Dim

Cofnodion. C.Brewer am gadarnhau (1) mai ar gyfer defnydd Dolwyddelan yn ei Blodau, sydd bellach yn is bwyllgor o'r Cyngor llawn, oedd yr arian drosglwyddwyd i'r Cyngor - mae'r arian ac unrhyw arian pellach dderbynnir at ddefnydd gwaith gan Dolwyddelan yn ei Blodau ac nid at ddefnydd cyffredinol y Cyngor llawn.
(2) Connie a Liz yn ceisio cael grant tuag at atgyweirio'r Cwt Hers. Nid yw'r Loteri Treftadaeth yn addas, mae angen rhagor o waith ymchwil.
(3) Angen llenwi'r tyllau yn y ffordd gan eu bod yn llenwi hefo dŵr ar adeg glaw trwm.
Wedi'r cywiriadau derbyniwyd y cofnodion cynnig E.R.Noble, cefnogi L.Roberts a phawb o blaid.

Heddlu. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y ddau PCSO Peter Jones ac Elin Harlow, cyfeiriodd P.Jones at ddigwyddiad yn yr hen gae chwarae Pont y Pant pan fu i griw aros yn y cae dros nos ond bu iddynt symud ymlaen. Cadarnhaodd L.Roberts y gellir cysylltu â'r PCSO's yn Glasdir.

Yr A470. Dim gwybodaeth pellach gyda'r terfynau cyflymder 20mya ar ffyrdd trefol o Fedi 17.
Ni chafwyd ymateb i'r cais i gael symud yr arwyddion cyflymder bellach yn ôl tuag at Tan y Castell.

Cyngor Sir. Dim ymateb gan B.Shiland am gyflwr Pont yr Afon na'r wal ar hyd Stryd y Bont, anfon eto i'w atgoffa ac am frigau a deiliach yn tyfu ar waliau Pont Gethin. Dim gwybodaeth am ddyddiad i gychwyn ar y gwaith i roi wyneb newydd ar y ffordd o'r Sgwar i Bentrefelin. Kevin Jones o'r Cyngor Sir wedi trefnu i osod rhwystrau cadarn ar Allt Singrig i rwystro gyrrwyr ceir 4x4 rhag teithio hyd ddi a gwneud mwy o ddifrod, Clerc i anfon i ddiolch iddo. Rhwystrau tebyg wedi'i gosod ar y ffordd yng Nghapel Curig hefyd.
Cadarnhaodd M.Skerrett nad oedd yr arwyddion newydd i nodi 'Dim ffordd trwodd' wedi eu gosod ar y 'ffordd gefn' ym Mhont y Pant hyd yma, Clerc i gysylltu â Richard Roberts.

Pontydd yn yr Ardal. Clerc i gysylltu â Bryn Shiland am ddiweddariad.

Cynlluniau.
Dulas Maes y Llan. Dim ymateb.
Pont Sarn Ddu. Dim ymateb.
Bryn Teg. Dim ymateb.
9 Maes y Llan: Dim sylwadau na gwrthwynebiadau.

Llifogydd. L.Roberts am drefnu cyfarfod i drafod hyn am 6:30pm noson y Cyngor nesaf Gorffennaf 13eg. - fe wnaiff hi gadarnhau y manylion.

Scottish Power. Dim i'w adrodd.

Toiledau. Clerc wedi paratoi rhestr o'r incwm oedd wedi ei dderbyn hyd yma ers agor y toiledau, roedd yr Aelodau yn hapus o weld fod incwm da yn cael ei dderbyn, Clerc i baratoi rhestr o'r costau perthnasol. Liz Roberts wedi cysylltu gyda Gary Williams CBSC ynglŷn a'r peiriant dŵr ac roedd ef wedi trefnu iddo gael ei atgyweirio. Roedd Gary wedi cadarnhau fod problemau mewn sawl man gyda talu am fynediad gyda cerdyn. Derbyniwyd llythyr gan Zac yn cadarnhau y

bydd ar ei wyliau o Awst 3 hyd at 14, cadarnhaodd Liz Roberts y buasai yn trafod gyda Cyngor Conwy i ofyn iddynt allent hwy drefnu i ddod i lanhau am y cyfnod?

Y Gofgolofn. Sylw gan y Clerc ei fod yn teimlo fod Idris Roberts yn gwneud gwaith arbennig o dda gyda torri'r gwair yno.

Gwaith yn y Fynwent. C.Brewer a Liz Roberts wedi cael gwybod nad oedd y Loteri Treftadaeth yn addas ar ôl eu ymholiad cyntaf am arian grant, mae angen rhagor o ymchwil. Y Clerc yn parhau i drafod y sefyllfa gyda'r tyllau yn y ffordd sydd yn llenwi gyda dŵr yn dilyn glaw trwm.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.Brewer, cefnogi M.L.Hughes a pawb o blaid.

Llysiau'r Dial. Dim i'w adrodd.

Sgip. Cytunwyd i geisio trefnu ymweliad Sgip ym mis Gorffennaf. .

Diffibriliwr. Liz wedi gwneud ymholiad parthed sefyllfa gyda Diffibriliwr, fe wnaiff roi copi i'r Clerc.

Gwasanaeth Bysiau. Ni dderbyniwyd adroddiad yn dilyn ymweliad diweddar y swyddogion, cadarnhaodd Liz Roberts ei bod yn gweithio a chefnogi ceisio cael Gwasanaeth Bws Fflexi ar gyfer yr ardal. Mae hi'n anodd deall sut mae'r gwasanaeth yn mynd i rai ardaloedd ac nid i eraill.

Blodau hyd ochr yr A470. Cytunwyd i ofyn i Eurwyn Roberts a fuasai yn rhoi blodau yn y cafnau hyd ochr y ffordd ac yn y fasged ger y toiledau.

Tai Tanrallt. Deallwyd fod Cwmni Cynefin yn trefnu i ddod i gael golwg ar y tai i edrych oes angen gwaith arnynt.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Gorffennaf 6..